# Polisi Codi Tâl a Pheidio â Chodi Tâl

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CRC) yn ganolog i gynlluniau, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel Ysgol sy'n Parchu Hawliau rydym yn addysgu am hawliau plant a hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob perthynas

# Polisi Codi Tâl a Pheidio â Chodi Tâl

# Ysgol Gymraeg Pontybrenin

Rydym yn derbyn Polisi Codi Tâl a Pheidio â Chodi Tâl dyddiedig Rhagfyr 2005 a gymeradwywyd gan yr AALl ac rydym yn cydymffurfio ag ef. Mae ein polisi ein hunain yn seiliedig ar eu hargymhellion ac mae'n cael ei adolygu'n flynyddol i ddiwallu anghenion newidiol.

**Polisi Codi Tâl ar gyfer Ymweliadau Addysgol**

- Dylid nodi cost yr ymweliad arfaethedig ac, er na ellir codi tâl am ymweliadau a drefnir yn ystod oriau ysgol, gofynnir am gyfraniad gwirfoddol.
- Ni fydd yr un plentyn yn cael ei eithrio o'r ymweliad oherwydd diffyg cyfraniad gwirfoddol. Bydd y pennaeth yn cymorthdalu'r gost gyda chyfraniad o gronfa'r ysgol neu gyfraniad CRA.
- Os na cheir digon o gyfraniadau gwirfoddol, efallai y bydd angen canslo'r ymweliad.
- Ni wneir elw ar yr un ymweliad addysgol yn ystod oriau ysgol neu mewn amgylchiadau heb gytundeb y corff llywodraethu.
- Ar gyfer tripiau maes, bydd y tâl yn dibynnu ar y lleoliad.
- Bydd unrhyw ymweliad 'dramor' yn cael ei brisio a chaiff cyfarfod â'r corff llywodraethu a'r rhieni ei gynnal cyn gwneud trefniadau fel y gall yr holl bartïon ddod i gytundeb ar y cyfraniad i'w wneud gan y rhieni, yr ysgol a/neu'r CRA ym mhob achos.

Rhoddir gwybod i rieni am eu hawliau os ydynt yn gymwys ar gyfer peidio â chodi tâl ac sy'n cael budd-daliadau a ystyrir gan yr AALl.

Darperir cinio pecyn i ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim wrth drefnu unrhyw ymweliad addysgol ar gyfer diwrnod llawn.

Taliadau ar gyfer mynychu gwersi nofio – mae hyn yn rhan o amserlen y cwricwlwm ac, fel y cyfryw, yr ysgol sy'n gyfrifol am dalu'r costau trafnidiaeth o'r gyllideb.

Taliadau ar gyfer presenoldeb mewn sesiynau chwaraeon ychwanegol, e.e. hyfforddiant athletau ar drac y brifysgol - ariennir trafnidiaeth yn rhannol gan rieni ac yn rhannol naill ai o gronfa'r ysgol neu'r CRA.

Ariennir ffioedd arholiadau ar gyfer disgyblion yr ystyrir eu bod yn barod i'w sefyll gan staff peripatetig. Bydd rhieni'n gyfrifol am gludo disgyblion i'r lleoliad os na fydd yn yr ysgol.

**Polisi Codi Tâl ar gyfer Gosodiadau**

Bydd yr adeilad ond yn cael ei osod i bobl sy'n gallu cydymffurfio â'r arweiniad presennol ar wiriadau SCT os ydynt yn gweithio gyda disgyblion Ysgol Gymraeg Pontybrenin.

Bydd yn rhaid gwirio copïau o'r ddogfennaeth yswiriant berthnasol cyn caniatáu i diwtoriaid gynnal gweithgareddau gyda disgyblion y tu allan i oriau ysgol. Bydd hyn yn gyfystyr ag 'Yswiriant Atebolrwydd Personol'.

Prisiau'r gosodiadau yw:

- Neuadd yr ysgol / Dosbarth - £15 am yr awr gyntaf a £10 yr awr wedi hynny.
- Clybiau ar ôl ysgol ac amser cinio - rhoddir gosodiadau am ddim i sefydliadau ac unigolion yr ystyrir gan y corff llywodraethu eu bod yn cynnal gweithgareddau allgyrsiol i'r disgyblion nad ydynt yn gwneud elw ac mae tiwtoriaid ond yn codi tâl i dalu costau cynnal y clwb – gallai hyn gynnwys ffioedd cyswllt i gyrff rheoli, treuliau teithio.
- Caiff taliadau gosod eu hadolygu o leiaf bob blwyddyn a gellir creu cytundebau unigol i bobl sydd am gymryd rhan mewn 'gosodiadau tymor hir sydd am fwy nag awr y sesiwn'.
- Mae ffioedd gosod yn cael eu cyfansymio bob hanner tymor neu bob tymor ac yn cael eu hanfonebu i'r sawl sy'n gosod y safle. Mae'r sieciau'n cael eu talu'n uniongyrchol i gyllideb yr ysgol a chyfrifir ar eu cyfer fel 'incwm'.

**Codi Tâl am Berfformiadau Arbennig a Digwyddiadau**

- Codir tâl bach am bresenoldeb yng nghynyrchiadau'r Diolchgarwch a Nadolig.
- Rhoddir mynediad gyda thocyn/rhaglen yn unig er mwyn cydymffurfio â rheoliadau tân ar nifer yr oedolion y mae'n ddiogel iddynt eistedd yn y neuadd ar gyfer unrhyw berfformiad.
- Caiff elw'r digwyddiad hwn ei fancio yng nghronfa'r ysgol a chaiff ei ddefnyddio at amrywiaeth o ddibenion i ddarparu amrywiaeth o brofiadau, digwyddiadau, mesurau cefnogi disgyblion unigol, ariannu artistiaid preswyl, etc.
- Nid yw'r ysgol yn codi tâl am fynediad i ddigwyddiadau arbennig eraill, megis gwasanaethau dosbarth, gwasanaethau arbennig, ymwelwyr â'r ysgol yn arwain gwasanaethau arbennig, etc.

Mae cyfraniadau elusennol a wneir yn ystod y flwyddyn ar gyfer sefydliadau dethol yn cael eu casglu. Bydd elw o'r fath ddigwyddiadau'n cael ei fancio yng nghronfa'r ysgol a'i dalu trwy siec i'r sefydliad dethol.

**Codi Tâl ar gyfer Torri a Difrodi Eiddo'r Ysgol**

- Nid yw'r ysgol yn codi tâl ar gyfer y fath ddigwyddiadau, ond lle mae plentyn wedi peri difrod neu dorri eitem yn fwriadol – ar ôl ymgynghori â'r rhieni, weithiau mae'r disgybl yn gwneud ‘cyfraniad’ bach i'r ysgol o'i arian poced er mwyn helpu i amnewid yr eitem dan sylw. Os nad yw'r rhieni'n teimlo bod hyn yn briodol, perchir eu barn bob tro.
- Ar gyfer difrod/damweiniau enfawr, gwneir hawliadau yswiriant i dalu costau.

**Codi Tâl ar gyfer Digwyddiadau CRA.**

Codir tâl ar gyfer mynediad i ddigwyddiadau a drefnir gan y CRA neu gymryd rhan ynddynt ac mae'n destun trafodaeth gan Bwyllgor y CRA. Mae ymgynghori â'r pennaeth yn rhan o'r broses hon a cheir cytundeb er mwyn galluogi'r holl rieni a disgyblion i deimlo eu bod yn gallu cymryd rhan yn y digwyddiad.

**Clwb Brecwast**

- Menter Llywodraeth Cymru yw'r clwb brecwast ac mae am ddim i bob defnyddiwr. Derbynnir cyfraniadau gwirfoddol a defnyddir yr arian ar gyfer staff neu gyfarpar ychwanegol yn y clwb.
- Mae'r elw'n cael ei fancio yng nghronfa'r ysgol.

**Rheoli Cronfa'r Ysgol**

- Bydd y llog a enillir ar yr holl arian yng nghronfa'r ysgol yn aros yng nghronfa'r ysgol.
- Mae'r comisiwn a enillir ar ffotograffau ysgol yn cael ei dalu i gronfa'r ysgol.
- Ad-delir pob eitem a brynir o gronfa'r ysgol i'r aelod o staff neu caiff yr arian ei dalu i'r person perthnasol ar ôl cyflwyno anfoneb, derbynneb neu ryw ffurf ar hysbysiad swyddogol o wariant.
- Mae cronfa'r ysgol yn cael ei rheoli a'i chynnal gan Ms Hazel Davies, ysgrifenyddes yr ysgol ar y cyd â Mr Ceri Scourfield, y pennaeth.
- Mae pump llofnodwr ar gyfer y gronfa ac mae angen dau lofnodwr ar gyfer awdurdodi. Mae'n rhaid i un o'r ddau lofnodwr hyn fod y pennaeth neu'r dirprwy bennaeth.

- Archwilir cronfa'r ysgol gan ddau aelod o staff, nad ydynt yn llofnodwyr ar gyfer y gronfa, yn flynyddol a chan archwiliwr Dinas a Sir Abertawe bob tair blynedd.  Rhoddir adborth ar y canfyddiadau i'r corff llywodraethu llawn trwy'r adroddiad archwilio ffurfiol.
- Gwirir yr archwiliad blynyddol gan gadeirydd y llywodraethwyr, y Cyng Robert Smith, nad yw'n llofnodwr ar gyfer y gronfa.
- Mae holl gofnodion cronfa'r ysgol ar gael i graffu arnynt ac maent yn cael eu cyflwyno i'r corff llywodraethu'n flynyddol ar ôl yr archwiliad.

| **Mabwysiadu'r Polisi** |
| --- |
| Dyddiad Mabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol: 21/11/23 |
| Dyddiad Ardystiwyd gan y Corff Llywodraethol: 21/11/23 |
| Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr: |